

Dyddiad / Date 10 Chwefror 2021

Gofynnwch am / Ask for M Curtis

Rhif ffôn / Telephone 01446 709828

Ffacs / Fax

e-bost / e-mail 21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk

Eich Cyf / Your Ref

Fy Nghyf / My Ref 21C/CLW

Cyngor Bro Morgannwg

Dysgu a Sgiliau

Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, CF63 4RU

Rhif ffôn: (01446) 700111

www.bromorgannwg.gov.uk

The Vale of Glamorgan Council

Learning and Skills

Civic Offices, Holton Road, Barry, CF63 4RU

Telephone: (01446) 700111

At: Rhieni, Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol y Deri, Y Daith ac Ysgol Gynradd Gladstone; Pennaeth, Staff a Chorff Llywodraethu Ysgol Y Deri, Y Daith ac Ysgol Gynradd Gladstone; Ymgynghoreion penodedig

Annwyl Ymgynghorai,

Cynnig i drawsnewid addysg arbenigol drwy:

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn ysgol gynradd Gladstone fel lloeren i Ysgol Y Deri o fis Medi 2021;
- dirwyn Y Daith i ben a sefydlu Canolfan Dysgu a Lles newydd dan reolaeth Ysgol Y Deri o fis Medi 2021; ac
- adeiladu adeilad newydd ar gyfer disgyblion y Ganolfan Dysgu a Lles ar safle Depo Court Road yn y Barri o fis Ionawr 2023

Bu i'r Cyngor ymgynghori ag ymgynghoreion penodedig yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig.

Yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, cynhaliwyd ymgynghoriad gydag ymgynghoreion penodedig rhwng 7 Medi 2020 a 18 Hydref 2020. Nod yr ymgynghoriad oedd rhoi gwybod i ymgynghoreion penodedig am y cynnig. Yn ystod yr ymarfer ymgynghori, derbyniwyd 44 o ymatebion unigol erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad sef 18 Hydref 2020. Gofynnwyd i'r ymgynghoreion am eu barn ar dri chwestiwn allweddol (tabl 1).

Tabl 1 - Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad

“A ydych yn cefnogi'r cynnig i drawsnewid addysg arbenigol?”	Nifer yr ymatebion	Cyfanswm sy'n cefnogi		Cyfanswm nad ydynt yn cefnogi		Cyfanswm sydd heb farn	
		Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
A) Trwy sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn ysgol gynradd Gladstone fel lloeren i Ysgol Y Deri o fis Medi 2021	44	30	68%	2	5%	12	27%
B) Trwy ddirwyn Y Daith i ben a sefydlu Canolfan Dysgu a Lles newydd dan reolaeth Ysgol Y Deri o fis Medi 2021	43	32	74%	9	21%	2	5%
C) Trwy godi adeilad newydd ar gyfer disgyblion y Ganolfan Dysgu a Lles ar safle Depo Court Road yn y Barri o fis Ionawr 2023	44	40	91%	2	5%	2	5%

Ar 16 Tachwedd 2020, ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, penderfynodd y Cabinet fwrw ymlaen â'r cynnig drwy gyhoeddi hysbysiad statudol. Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar wefan y Cyngor ar 25 Tachwedd 2020 a'i ddosbarthu i ymgynghoreion penodedig. Cafodd hefyd ei arddangos ar brif fynedfeydd Ysgol Gynradd Gladstone, Ysgol Y Deri ac Ysgol Y Daith. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn sicrhau bod cyfle i unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion wneud hyn. Er mwyn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, mae'n rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy e-bost, a'u hanfon i'r cynigiwr cyn pen cyfnod 28 diwrnod gan ddechrau o'r diwrnod pan gyhoeddwyd yr hysbysiad ("y cyfnod gwrthwynebu"). Gan fod yr hysbysiad statudol wedi'i gyhoeddi ar 25 Tachwedd 2020, roedd rhaid derbyn gwrthwynebiadau statudol erbyn 22 Rhagfyr 2020. Derbyniwyd un gwrthwynebiad statudol yn ystod y cyfnod rhybudd statudol.

Ar 8 Chwefror 2021, ystyriodd Cabinet Cyngor Bro Morgannwg yr adroddiad gwrthwynebiadau a'r holl ddogfennau perthnasol eraill a phenderfynodd gymeradwyo'r cynnig. Mae'r adroddiad gwrthwynebiadau ar gael i'w weld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor.

<http://www.valeofglamorgan.gov.uk/centreforlearningandwellbeing>

Mae copïau caled o'r adroddiad gwrthwynebiadau ar gael ar gais drwy gysylltu ag aelod o'r Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif ar: 21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk

Bydd y cynnig yn golygu dirwyn Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) bresennol y Cyngor, Y Daith, i ben, a sefydlu Canolfan Dysgu a Lles newydd o dan reolaeth Ysgol Y Deri. Bydd hefyd yn sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) newydd yn ysgol gynradd Gladstone a fydd yn gweithredu fel lloeren o Ysgol Y Deri.

Mae'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Gladstone wedi cael ei threialu ers mis Medi 2019. Mae'r ganolfan yn defnyddio ardaloedd o fewn yr adeiladau ysgol presennol. Cynigir bod hyn yn cael ei sefydlu'n ffurfiol o fis Medi 2021, gan barhau i ddefnyddio'r cyfleusterau presennol yn Ysgol Gynradd Gladstone.

Bydd corff llywodraethu Ysgol y Deri yn gweithio ochr yn ochr â phwyllgor rheoli Y Daith i sefydlu cynllun pontio a fydd yn cynnwys datblygu'r strwythur staffio ar gyfer y Ganolfan Dysgu a Lles newydd cyn mis Medi 2021.

Yn ogystal, bydd adeilad ysgol newydd yn cael ei adeiladu ar safle Depo Court Road yn y Barri ar gyfer mis Ionawr 2023. Bydd disgyblion a staff y Ganolfan Dysgu a Lles arfaethedig yn gweithredu o adeiladau presennol Y Daith yn y Bont-faen ac ar Fferm Ymddiriedolaeth Amelia yn y cyfamser.

Wrth benderfynu ar y cynnig, roedd y Cabinet yn fodlon y bydd yn cynnig yn:

- Mynd i'r afael â chyflwr ac addasrwydd adeiladau presennol a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Y Daith;
- Lleihau costau trafnidiaeth o ganlyniad i'r Ganolfan Dysgu a Lles yn cael ei rhoi mewn lleoliad mwy canolog ym Mro Morgannwg;
- Cynnig amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol fyddai'n gallu addasu i newid, wrth herio a chefnogi plant i gyflawni eu potensial yn llawn.
- Cynyddu gallu'r gymuned i ddefnyddio a rhyngweithio â'r ysgol drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan fodloni anghenion yr ysgol ar yr un pryd.

- Darparu llety addas i ddisgyblion o bob grŵp oedran, a thrwy hynny ddileu'r angen i weithredu darpariaeth safle wedi'i rannu;
- Gwneud darpariaeth yn y Fro ar gyfer mwy o'n disgyblion ag anghenion Cymdeithasol, Emosiynol a Iechyd Meddwl (CEIM) cymhleth yn ystod y cyfnodau addysg cynradd ac uwchradd;
- Cydnabyddir mai Ysgol y Deri yw'r sefydliad sydd â'r profiad a'r sgiliau i weithredu'r dull sy'n seiliedig ar drawma yn y ffordd fwyaf effeithiol o fewn ac ar draws yr Awdurdod Lleol (ALI). O'r herwydd, gydag Ysgol y Deri yn cydlyn swyddogaeth y Ganolfan Dysgu a Lles a'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol, mae'n golygu bod rhai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed yn cael y cymorth a'r ddarpariaeth anogaeth fwyaf effeithiol fel elfennau allweddol o'u haddysg;
- Cynyddu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus gyda staff y Ganolfan Dysgu a Lles a'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn ffurfio rhan o Ysgol y Deri;
- Gwella gwydnwch o ganlyniad i ddull cydgyssylltiedig a reolir gan Ysgol Y Deri. Ar hyn o bryd mae strwythur staffio Y Daith yn fach o ran maint a bydd bod yn rhan o endid mwy yn rhoi mwy o wydnwch o ran staffio;
- Bydd mynediad i rwydwaith ehangach o adeiladau Ysgol y Deri yn rhoi mwy o gyfle i ddarpariaeth gael ei chynnig i'r dysgwyr hynny sy'n dioddef o bryder aciwt a phroblemau iechyd meddwl. Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth o'r fath yn cael ei chynnig gan Y Daith; ac
- Atal dibyniaeth yn y dyfodol ar ddarpariaeth gostus y tu allan i'r sir.

Mae'r rhesymau dros y penderfyniad mewn cysylltiad â'r ffactorau wedi'u nodi yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion fel a ganlyn:

Ansawdd a Safonau Addysg

Mae'n debygol y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg. Fel y nodwyd gan ymatebwyr, mae cyfyngiadau i'r adeiladau presennol a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Y Daith. Bydd y Ganolfan Dysgu a Lles newydd arfaethedig yn darparu digon o le i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 gael eu haddysgu ar safle unigol. Byddai'r adeilad newydd arfaethedig hefyd yn rhoi'r cyfle i gynnig darpariaeth Cyfnod Allweddol 4 llawn-amser a godwyd gan Estyn yn ystod yr arolwg diweddaraf. Caiff yr adeilad a'r safle newydd eu dylunio i fodloni anghenion disgyblion a byddant yn cynnig y cyfle i wella'r cwricwlwm. Nodwyd bod hyn yn rhywbeth arbennig o gadarnhaol gan ddisgyblion yn y sesiynau ymgysylltu; roedd y disgyblion yn frwdfrydig am gyfleusterau chwaraeon gwell a mannau "torri allan" digonol.

Byddai'r Ganolfan Dysgu a Lles a'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Gladstone sy'n cael eu rheoli gan Ysgol Y Deri yn sicrhau cymorth cyson i ddysgwyr sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl ar draws Bro Morgannwg.

Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Mae'r cynnig yn ffurfio rhan o strategaeth y Cyngor i weddnewid addysg arbennig ym Mro Morgannwg er mwyn ateb y galw a ragwelir yn y dyfodol a bodloni anghenion ein dysgwyr mwyaf agored i niwed orau. Datblygwyd y cynnig hwn i sicrhau y gall y Cyngor ddiwallu anghenion dysgwyr ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl yn y ffordd orau ac nad yw'n arwain at fwy o gapasiti.

Y Ganolfan Dysgu a Lles fydd yn gyfrifol am bortffolio UCD presennol sector uwchradd Bro Morgannwg, Y Daith, sy'n darparu addysg i tua 80 o ddisgyblion ar hyn o bryd. Mae'r nifer hwn yn amrywio drwy gydol y flwyddyn ac mae'n cynnwys disgyblion sy'n manteisio ar ddarpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol a drefnir gan yr Awdurdod Lleol (ALI). Bydd swyddogion ALI yn parhau i fod yn gyfrifol am ariannu, trefnu a monitro pob lleoliad Addysg Heblaw yn yr Ysgol sy'n cael ei froceru gan

yr ALI. Ni fydd dysgwyr sy'n cael eu rhoi gyda darparwyr Addysg Heblaw yn yr Ysgol ar sail amser llawn ar y gofrestr yn y Ganolfan Dysgu a Lles.

Rhagwelir y bydd y Ganolfan Dysgu a Lles yn gallu darparu cymorth, arweiniad a strategaethau allgymorth priodol i ysgolion uwchradd prif ffrwd mewn perthynas â'r disgyblion ag anghenion CEIM, yn ôl y gofyn.

Bydd y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Gladstone yn lletya 10 disgybl.

Pob derbyniad i'r Ganolfan Dysgu a Lles a'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Gladstone drwy Banel CEIM y Cyngor. Rhaid i bob derbyniad gael ei gymeradwyo gan y Swyddog Arweiniol ar gyfer Cynhwysiant Cymdeithasol a Lles a/neu'r Pennaeth Safonau a Darpariaeth, mewn ymgynghoriad ag Ysgol Y Deri.

Gyda'r Ganolfan Dysgu a Lles a'r Ganolfan Adnoddau Arbennig (yn ysgol gynradd Gladstone) yn cael eu rhoi o dan ymbarél rhwydwaith ehangach Ysgol y Deri o ddarpariaethau a swyddogaethau gwasanaeth, bydd yn caniatáu cydlynid ac aliniad o ran hyrwyddo'r dull sy'n seiliedig ar drawma i gefnogi pob disgybl ag anghenion CEIM. Bydd yn sicrhau bod llinyn craidd sy'n gysylltiedig â'r ethos a'r dull sy'n seiliedig ar drawma yn rhedeg drwy'r sectorau cynradd ac uwchradd yn ysgolion y Fro.

Cydnabyddir mai Ysgol y Deri yw'r sefydliad sydd â'r profiad a'r sgiliau i weithredu'r dull sy'n seiliedig ar drawma yn y ffordd fwyaf effeithiol o fewn ac ar draws yr Awdurdod Lleol (ALI). O'r herwydd, gydag Ysgol y Deri yn cydlyn swyddogaeth y Ganolfan Dysgu a Lles a'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol, mae'n golygu bod rhai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed yn cael y cymorth a'r ddarpariaeth anogaeth fwyaf effeithiol fel elfennau allweddol o'u haddysg; Mae'r dull a amlinellir hefyd yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu CEIM a ddatblygwyd gan yr ALI, ac felly, dyma'r cam rhesymegol nesaf wrth ddatblygu dull ehangach yr ALI.

Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill

Bydd buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn cael ei wneud i adeiladu Canolfan Dysgu a Lles newydd ar Safle Court Road. Bydd y Cyngor yn gyfrifol am reoli'r gwaith o adeiladu'r adeilad newydd fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Amcangyfrifir mai cyfanswm yr arian cyfalaf sydd ei angen i adeiladu ysgol newydd yw £4.4miliwn. Disgwylir y bydd y Cyngor yn cael £3.3 miliwn o arian Llywodraeth Cymru drwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn amodol ar gymeradwyo achos busnes. Mae cyfraniad y Cyngor wedi'i gynnwys fel rhan o'r rhaglen gyfalaf. Nid oes unrhyw oblygiadau cyfalaf o ran sefydlu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Gladstone gan y bydd adeiladau ysgol presennol yn cael eu defnyddio.

Bydd y gyllideb refeniw ar gyfer y Ganolfan Dysgu a Lles a'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Gladstone yn cael ei dirprwyo i Ysgol Y Deri. Corff Llywodraethu Ysgol Y Deri fydd yn gyfrifol am y gyllideb ddirprwyedig. Bydd darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn cael ei rheoli gan y Cyngor a bydd yr adnoddau perthnasol yn cael eu cadw. Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r corff llywodraethu i ddatblygu'r ddarpariaeth a nodi anghenion ariannu. Bydd hyn yn cynnwys nodi unrhyw gyllid pontio i gefnogi datblygiad y prosiect.

Corff llywodraethu Ysgol y Deri fydd yn gyfrifol am ddatblygu strwythur staffio ar gyfer y Ganolfan Dysgu a Lles a'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn ysgol gynradd Gladstone. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i staffio yn destun ymgynghoriad llawn â staff a'r undebau llafur perthnasol lle bo angen. Bydd staff Y Daith a'r rhai yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Gladstone yn trosglwyddo i Ysgol y Deri o fis Medi 2021.

Mae'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Gladstone wedi cael ei threialu ers mis Medi 2019. Ni fydd y capasiti a'r lleoliad yn cael eu newid o ganlyniad i'r cynnig hwn ac felly ni fydd yn cael unrhyw effaith ar y trefniadau teithio presennol.

Ar hyn o bryd mae Y Daith wedi'i lleoli ar draws dau safle gyda chyfnod allweddol 3 yn cael ei addysgu ar Fferm Ymddiriedolaeth Amelia a chyfnod allweddol 4 yn y Bont-faen. Ar hyn o bryd mae Y Daith yn cael ei gwasanaethu gan 2 fws mini a 6 thacsi. Bydd y cynnig hwn yn arwain at ostyngiad cyffredinol o ran teithio gan ddysgwyr. Y rheswm am hyn yw bod y lleoliad arfaethedig mewn lleoliad mwy canolog ym Mro Morgannwg. Mae 60% o'r disgyblion presennol sy'n cael eu cludo i'r UCD yn byw yn y Barri ar hyn o bryd. Byddai'r cynnig yn lleihau'r siwrneiau hyn yn sylweddol. Amlygwyd hyn fel elfen gadarnhaol o'r cynnig gan ddisgyblion yn y sesiynau ymgysylltu.

Bydd y cynigion yn sicrhau y bydd adeiladau newydd yn bodloni safonau adeiladu modern i leihau allyriadau carbon, bodloni safonau Rhagoriaeth BREEAM, ac yn cyflawni'r radd uchaf o A ar gyfer y Dystysgrif Perfformiad Ynni (TPY).

Ffactorau cyffredinol eraill

Court Road

Er mwyn darparu ar gyfer y Ganolfan Dysgu a Lles newydd arfaethedig, bydd angen adleoli'r gwasanaethau presennol (parciau, glanhau a rhai gwasanaethau hamdden) sy'n gweithredu o Depo Court Road ar hyn o bryd. Bydd hyn yn golygu adleoli llawer iawn o offer a cherbydau, yn ogystal â staff. Sefydlwyd tîm prosiect yn ddiweddar yn y Gwasanaethau Cymdogaeth i oruchwylio'r symud arfaethedig. Mae'r symud yn dibynnu ar leoliad amgen boddhaol yn cael ei nodi a'i gytuno, yn ogystal â sicrhau bod y cyllid angenrheidiol ar gyfer y symud ar gael.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi y byddai effaith gadarnhaol ar bobl â'r nodweddion a ddiogelir o ran oedran, anabledd ac ailbennu/hunaniaeth rhywedd. Byddai'r cynnig yn cefnogi'r ysgol i sicrhau bod ganddi gyfleusterau gwell i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasau da rhwng y rhai â nodweddion a ddiogelir gwahanol.

Nid ymddengys y bu effaith negyddol ar y nodweddion a ddiogelir a nodwyd. Bydd gweithredu'r cynnig yn llwyddiannus yn galluogi cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb (2010), er enghraifft drwy ddarparu adeilad cwbl hygyrch i'r Ganolfan Dysgu a Lles gyda chyfleusterau niwtral o ran y rhywiau.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Mae'r asesiad effaith ar y gymuned yn nodi y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith cadarnhaol ar y gymuned leol mewn 7 o'r 8 mesur a aseswyd. Byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar y gymuned leol mewn 1 o'r 8 mesur a aseswyd.

Er y nodir y bydd fferm Ymddiriedolaeth Amelia yn cael ei effeithio'n negyddol drwy golli incwm, nid yw'r adeiladau presennol yn addas i ddiwallu anghenion dysgwyr yn y ffordd orau. Bydd y cynnig yn galluogi'r Ganolfan Dysgu a Lles newydd a'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (Ysgol Gynradd Gladstone) i greu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol y gellid eu haddasu i gyd-fynd â newid, a herio a chefnogi plant i gyrraedd eu potensial llawn. Bydd y cynnig yn cynyddu lefel y mynediad cymunedol a'r rhyngweithio drwy ddefnyddio cyfleusterau addysg yr ysgol wrth ddiwallu anghenion cymhleth y disgyblion.

Yn gyffredinol, bydd y cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Paula Ham'.

Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau